

MAE CARIAD A FFYDD YN GORCHFYGU'R BYD

Nodyn i'r siaradwr:

Helpwch y gynulleidfa i ddeall, mwya'n y byd rydyn ni'n dysgu am Jehofa ac yn ei garu, mwya'n y byd fydd ein ffydd yn ei addewidion. Bydd ein cariad mawr a'n ffydd gadarn yn ein galluogi i orchfygu'r byd, fel y gwnaeth Iesu

GORCHFYGODD CRIST IESU'R BYD (4 mun.)

Tua diwedd ei weinidogaeth ar y ddaear, dywedodd Iesu: "Yr wyf fi wedi gorchfygu'r byd" (In 16:33)

Fe wrthsafodd Iesu ymdrechion Satan y Diafol, duw'r byd hwn, i 'afael arno' (In 14:30; 1In 5:19)

Gwrthsafodd Iesu'r Diafol pan demtiodd ef i geisio pethau materol, enwogrwydd, a gwadu Duw (Mth 4: 4, 7, 10)

Methodd y grwpiau crefyddol a gwleidyddol gelyniaethus i'w faglu mewn gair (Mth 22:15, 16, 34, 46)

Ei ffydd gadarn a chariad at Jehofa a helpodd Iesu i ddal yn dynn ar ei uniondeb ac i offen y gwaith a roddwyd iddo (In 17:4)

Gosododd Iesu esiampl i'w ddisgyblion ei dilyn (1Pe 2:21)

PARATÔDD IESU EI DDISGYBLION I ORCHFYGU'R BYD (7 mun.)

Rhybuddiodd Iesu ei ddisgyblion y bydden nhw hefyd yn dioddef gwrthwynebiad gan 'nad oedden nhw'n perthyn i'r byd' (In 15:18-20; Mth 10:16-18)

Fe ddatgelodd mai Satan yw prif wrthwynebw'r gwirionedd y Deyrnas (In 8:44)

Dysgodd Iesu ei ddisgyblion i weddio er mwyn cael eu gwarchod rhag "yr Un drwg," a gofynnodd i'w Dad ofalu amdany'n nhw (Mth 6:9, 13; In 17:15, 16)

Pwysleisiodd Iesu'r pwysigrwydd o garu Duw a chymydog (Mth 22:37-39)

Roedd yn trin eraill â thosturi (Mc 1:40, 41; Lc 8:43-48)

Cryfhaodd Iesu ffydd a chariad ei ddisgyblion drwy eu helpu i adnabod Jehofa yn well (In 17:3, 26)

Drwy lynu'n agos at esiampl Iesu, bydd ei ddisgyblion ffyddlon yn ennill 'buddugoliaeth lwy'r' (Rhu 8:35-39; w99-E 5/1 7)

MAE DISGYBLION HEDDIW YN GORCHFYGU'R BYD (7 mun.)

Mae gweision Jehofa heddiw wedi trechu'r byd a'i ffyrdd

Drwy gadw niwtraliaeth Gristnogol (w03-E 3/1 3-7)

Drwy ddal ati er gwaethaf gwrthwynebiad gan berthnasau, cymdogion, cyd-weithwyr, cyd-ddisgyblion, neu wrthgilwyr (w01-E 12/1 23 par. 18-19)

Drwy frwydro'n llwyddiannus yn erbyn ysbryd balch ac anufudd y byd (Eff 2:2, 8; lv 53-54 par. 7-8)

Drwy osgoi amcanion hunanol a diwerth (1Ti 6:6-12)

Mae canolbwyntio ar fuddugoliaeth ein prif Esiampl, a Thystion ffyddlon eraill, yn ein helpu i ddyfalbarhau (Heb 12:1-3)

MAE CARIAD A FFYDD YN EIN GALLUOGI I ORCHFYGU'R BYD (8 mun.)

Mae'r byd annuwiol hwn yn dal i 'orwedd yng ngafael yr Un drwg,' Satan (1In 5:19)

Mae casineb, trais, hil-laddiad, celwyddau, cenfigen, ac anfoesoldeb, yn ogystal â sgwrs a dillad pryfoclyd, yn adlewyrchu ysbryd y Diafol (lv 50-53 par. 1-6; 56-57 par. 11-13)

Mae pobl heb ffydd a gwybodaeth am gariad Duw yn ildio i ddylanwad drwg y Diafol (lv 54-55 par. 9-10)

Cariad at Jehofa a ffydd yn ei addewidion sydd yn galluogi Cristnogion i aros y tu hwnt i "gyffwrdd" Satan (1In 5:3-5, 18)

Oherwydd y fath gariad, mae cadw gorchmynion Duw yn bleserus, nid yn feichus (lv 11-13 par. 13-16)

Mae ffydd yn trechu ofn dyn, teimlad a all achosi inni gyfaddawdu ein hegwyddorion Beiblaidd (w14-E 4/15 10 par. 8)

A ninnau'n orchfygwyr y byd, yn ufudd i Dduw, mwynhawn fywyd gwell hyd yn oed nawr

Drwy gadw'r gorchmyn i 'ymlanhau oddi wrth bob peth sy'n halogi cnawd ac ysbryd,' osgown fod yn gaeth i dybaco, cyffuriau, a phornograffi (2Co 7:1)

Drwy ddilyn y cyngor i fynychu'r cyfarfodydd, anogwn ein gilydd i aros yn gadarn yn y ffydd (Heb 10:24, 25)

Drwy ddilyn cyfarwyddyd Iesu ynglŷn â phregethu, dysgu eraill, a gwneud disgyblion, cawn wir hapusrwydd sydd yn ein rhyddhau o fyd hunanol Satan (Mth 24:14; 28:19, 20; Act 20:35)

DAW FENDITHION TRAGWYDDOL I ORCHFYGWYR CRISTNOGOL (4 mun.)

Oherwydd i Iesu orchfygu'r byd, rhoddwyd iddo awdurdod mawr "ar ddeheulaw Duw" (1Pe 3:22)

Yn fuan fe fydd yn cwblhau ei goncwest ac yn ennill rhyfel Armagedon (Dat 6:2; 16:16)

Yr eneiog sy'n dilyn ôl traed Iesu yn ffyddlon yw'r rhai sy'n etifeddu Teyrnas nefoedd (Lc 12:32; 22:28-30)

Mae'r "defaid eraill" yn etifeddu lle yn rhan ddaearol y Deyrnas (In 10:16; Mth 25:34)

Drwy sefyll yn gadarn fel gorchfygwyr y byd a phregethu am Deyrnas Dduw yn ddi-ofn, gallwn helpu eraill i orchfygu'r byd a derbyn bendith dragwyddol Jehofa (Dat 12:11)

[Glynwch yn agos wrth yr amlinelliad hwn, a chadwch at yr amser a bennwyd ar gyfer pob rhan. Does dim rhaid darllen na thrafod pob cyfeiriad. Gweler y llyfr *Ministry School*, tt. 52-55, 166-169]

Rhif 191-W—tudalen 2

I'W DRADDODI MEWN 30 MUNUD

© 2015 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania